622

# Y Llofruddiaeth

YN

# LLANGERNYW.

## HEN WR WEDI LLADD EI WRAIG

Hydref 28, 1898, yn Llangernyw, Sir Ddinbych, gwnaeth hen wr o'r enw David Davies ymosodiad creulon ar ei wraig, Catherine Davies, gyda bwyell. Medrodd y druanes gyrhaedd ty cymydog—sef y Gerddi Gleision—lle y dodwyd hi i orwedd ar y *settle*, ac yr anfonwyd am y meddyg a'r heddgeidwad. Bu farw y wraig, a chymerwyd y gwr i'r ddalfa. Yn Llys y Trengholydd dygwyd reithfarn o "Lofruddiaeth Wirfoddol" yn ei erbyn, ac yn Llanrwst, o flaen yr Ynadon, traddodwyd ef i sefyll ei brawf yn Mrawdlys Sir Ddinbych.

———o———

Mae enw Cymru etto
  Dan wawd a duaf lén,
Mae dwylaw llofrudd anfad
  Yn maeddu Gwalia Wen!
Er uched rhinwedd Cymru,
  Gwladgarwch megis tân,
Ceir dynion a gweithredoedd:
  Ddiraddiant Gwlad y Gân.

Awn 'nawr i blwyf Llangernyw
  Ac i Bryntirion draw,
Edrychwn i'r gyflafan,
  Ond teimlwn ddirfawr fraw!
Canfyddwn Dafydd Davies
  Yn wallgof—ddrwg ei lun,
Sydd wedi troi yn llofrudd
  I'w anwyl wraig ei hun.

Yr wythfed dydd ar rhugain
O Hydref, teimlai radd
O awydd i'w llofruddio
Meddyliai am ei ladd,
Ac fe ddywedai wrthi
'Rhwyf am dy ladd yn awr,
A chwiliodd am y fwyell
Fel rhyw elynol gawr.

A chyda braich gyhyrog,
Ac yn y fwyell gref
Ar wegil Cath'rine Davies
Rhyw ddyrnod roddes ef;
I Iard y Gerddi Gleision
Yn araf symud gaed,
Ac yno fe orweddodd
O dan lifeiriol waed.

O fewn i'r Gerddi Gleision
Y cludwyd Cathrine gu,
I orwedd ar y *settle*,
Ac mewn rhyw boenau bu;
Ei gwaed oedd wedi llifo
Yn drwchus hyd y llawr,
A'r fwyell yn arddangos
Ol y gyflafan fawr.

Dywedai y carcharor—
Fel o dan feddwol sprî—
"Dywedais wrthych, Catrin,
Na 'myrwch dim a mi."
Peth rhyfedd ydyw meddwl
Am un o oed mor fawr
Yn lladd ei wraig â'r fwyell
O dan archollion mawr.

Anfonwyd am y meddyg,
A'r hedd-wâs yno gaed,

X205 2 30678

I geisio rhwymo'r clwyfau,
  A'r holl dystioiaeth wnaed;
A thystiodd Cathrine Davies
  Mai ergyd ar ei phen
A gafodd gyda'r fwyell,
  A'i gwaed oedd trosti'n llen.

Yn awr fe wnaed cyhuddiad—
  Gwirfoddol lofrudd du
Y cafwyd Dafydd Davies,
  A mwrddrwr yn ei dŷ,
A'i gynllun er ysamsedd
  A'i wraig fwriadai ladd,
O'r penderfyniad hwnw
  Ni fynai newid gradd.

Beth ydyw r cynwrf heddyw?
  Fe glywir dirfawr drwst:
Ond cludo Dafydd Davies
  I'w dreial yn Llanrwst!
Ceir yr ynadon yno
  A'r llys yn orlawn iawn,
A cheir erlynydd medrus
  Yn meddu cymwys ddawn.

Gwrandawyd tystiolaethau,
  Son am bob archoll hyll,
Am erfyn fel y fwyell,
  Dangoswyd maint a dull;
A'r heddwas a'i dystiolaeth
  A'r cyhuddiadau fu
Er cael ac euog farnu
  Y gwr yn llofrudd du.

Hen wr yn ddeg a thrugain
  A phedair mlwydd yn hŷn,
O dan rhyw deimlad rhyfedd
  Yn lladd ei wraig ei hun

Nis gwyddom ni yr achos,
  Ond teimlem dros eu gwawd,
Efallai mai yr achos
  Oedd ei sefyllfa dlawd.

'Rol symio pob tystiolaeth
  Mewn modd nad ydoedd well,
Fe ddygwyd Dafydd Davis
  Yn ol i'w gadarn gell,
O dan gyhuddiad difrif
  O fod yn llofrudd erch
I un fu iddo'n briod,
  Bu'n wrthddrych pena 'i serch.

Ystyriwn, Gymry anwyl,
  A hyny gyda phwyll,
Am ddichell y diafol
  A'i droion gyda'i dwyll.
Fe ddichon mai gwallgofrwydd
  Fel sydyn ffit a ddaeth,
A chyda'r fwyell gadarn
  Anfadwaith dirfawr wnaeth.

Fe erys y cyhuddiad
  Yn mrawdlys Dinbych draw,
O gyflwr Dafydd Davies
  Pa beth o hono ddaw ?
Mae'r gyfraith am ei hawliau
  Cyfiawnder hefyd yw,
Mae'r farn a'r adgyfodiad
  A manwl gyfraith Duw.

CREIGYDI.